DRAFFT

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6:30 y.h. NOS IAU, TACHWEDD 1AF YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

Cof; - 0111/18 Presennol

Yn y Gadair Maer, Cyng. Eric W. Roberts, Cynghorwyr Mici Plwm, A. Williams, E. Gruffydd, E.J. Hughes, M. Sol Owen, Parch Ioan Gruffydd, Elin Hywel
Dirprwy clerc E. Price
……..

Cof; - 0211/18 Ymddiheuriadau
Cynghorwyr Dewi O. Jones, D.Bullard, Ff.Adams, Michael Parry

……
Cof; - 0311/18 Datgan Diddordeb

Cyng. E.Gruffydd- cyfraniad i Plas Carmel (rhif 28)

……

Cof; - 0411/18 Gair gan y Maer
Adroddiad y Maer yn y llyfr cofnodion

…….

Cof; - 0511/18 Aelodau'r cyhoedd yn bresennol
Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

……

Cof; - 0611/18 Materion Cyfansoddiadol a Staff

a) Trosglwyddo'r hawl i weinyddu ar ran Clerc y Cyngor Tref Pwllheli i`r Dirprwy Clerc, mewn ymgynghoriad a Cyng. Michael Sol Owen a`r Cyng. Elin Hywel.
b) Clerc presennol dal yn wael.
c) Gweinyddu:- paentio wal ochr y siambr, paentio`r "llwyfan", trefnu archwiliad yr adeilad, carped i`r grisiau.

ch) Rhoddwyd adroddiad arianol gan y dirprwy clerc. Adroddiad yn llyfr cofnodion

d) Cyng. E. Gruffydd yn adrodd bod yna possibilrwydd bod nam yn taro cloc y dref . Dirprwy clerc am gysylltu gyda dyn y cloc

……

Cof; - 0911/18 Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Hydref, 2018

Cadarnhawyd cofnodion mis Hydref gyda`r newidiadau fel rhai a llofnodwyd hwy yn unol ar gyfraith.

……..

Cof; - 1011/18 Materion yn codi o'r cofnodion trwy ohebiaeth

Penderfyniad ; - Gofyn i Cyng. Hefin Underwood am adroddiad pellach ar doiledau yn Cyngor, Mis Rhagfyr.

……..

Cof;- 1111/18 Cynllunio.

a) **C18/0897/45/LL** ASDA estyniad i'r edrychiad blaen tua 188m² o arwynebedd Cynllun ar y Bwrdd
Gwrthwynebu, colli llefydd parcio sydd yn mynd i greu llif traffic anerbyniol yn y Traeth.

b) **C18/0882/45/LL** Adeiladu gorsaf bad achub a ramp lansio yn cynnwys creu mynedfa newydd i`r blaendraeth-**cytuno**

c) **C18/0792/45/LL** Newid defnydd ty annedd (3 llawr) i salon harddwch Cynlluniau hwyr-**cytuno**

ch) **C18/0901/45/LL** Newid defnydd i Madoc buildings Lon Dywod-**cytuno**

d)18/0968/45/LL Codi Lolfa Haul Ael y Bryn Allt Salem-**cytuno**

……..

Cof;- 1211/18- syniadau gan Gynghorwyr ar gyfer prosiectau

1. Meinciau i`r Tref
2. Gorchudd y tram
3. Twbiau blodau
4. Goleuadau Nadolig

Yn rhaglen Rhagfyr Cynghorwyr am gyflwyno adroddiad ar eu syniadau gyda chostau.
Trafodwyd cynnal is-bwyllgor i edrych i mewn i`r syniadau yn bellach, gyda bwriad o ddwyn i fewn unigolion/grwpiau eraill o Bwllheli

……..

Cof;- 1311/18

Y Tram,
Adroddiad gan Cyng. Michael Sol Owen yn dilyn cyfarfod ym Mhlas Glyn y Weddw 15 Hydref i drafod gorchudd i`r Tram

.....

Cof; - 1411/18
Dyfodol Clwb Ieuenctid Pwllheli- Derbyniwyd yr ebost gyda gwybodaeth gan Cyngor Gwynedd

Dim penderfyniad ar ddyfodol Clwb Ieuenctid i`r dref

……..

Cof;-1511/18

Noson Dathlu ar gyfer y Prifardd Gruffudd Eifion Owen. Adroddiad yn Gair gan y Maer

.....

Cof;-1611/18- Cydlynydd Cymunedol cynnig gan Cyng. Elin Hywel

Bydd cyfarfod i drafod yn bellach gyda Michael Sol Owen ar ddirprwy clerc, gyda bwriad o gyflwyno papur ar y cais yn y Cyngor Rhagfyr
.....

Cof; - 1711/18
Hesg- O Gwmpas y Dref (tymor hir) a llwybrau newydd
Cyng. Elfed Gruffydd
Penderfyniad ;- trydydd gwahoddiad i Gymorth Naturiol Cymru mis Rhagfyr
.....

Cof; - 1811/18
Yr hen turnstile Canolfan Hamdden -Llythyr yn cynnig cyfraniad 50% o'r gost sef £950, gydag amodau. Sef:- lleoliad, a phlac yn dangos cyfraniad y Cyngor Tref. Derbyn yr ateb oedd ar y bwrdd gan y Ganolfan Hamdden
.....

Cof;- 1911/18-Pwyllgor ymgynghorol Harbwr Pwllheli

Diolch i Cyng. Mici Plwm am yr adroddiad oedd ar y bwrdd ac wedi ei ebostio i`r Cynghorwyr

.....

Cof; - 2011/18
Marchnad Sul -**Dim ateb i`r llythyr sydd yn gofyn am y** sefyllfa diweddara parthed stondinwyr lleol
.....

Cof; - 2111/18
Sefyllfa Traffic ym Mhwllheli, Power point wedi ei yrru yn flaenorol i`r Cynghorwyr
Trafod yn Cyngor Rhagfyr

.....

Cof; - 2211/18
Safle Bysus
Rhagor o wybodaeth gan Cyng. Ffiona Adams. Cyngor Rhagfyr
……

Cof; - 2311/18
Llythyr ar y bwrdd gan Gyngor Tref Porthmadog yn gofyn barn Cynghorau eraill ar wahodd yr eisteddfod i Lyn ac Eifionydd yn 2021 neu 2025.
Cynghorwyr tref Pwllheli yn cefnogi`r bwriad yn 2025

.....

Cof; - 2411/18
Llythyr gwybodaeth ar y bwrdd yn adrodd bod banciau ailgylchu papur/cylchgronau yn darfod.

.....

Cof;-2511/18
Llythyr ar y bwrdd- Gwahoddiad i cyfarfod blynyddol Cyngor ar Bopeth Cymru-ail Tachwedd.

.....

Cof;-2611/18 Wi-fi i'r dref. Adroddiad ar gyfarfod 16 Hydref gan Cyng Michael Sol Owen

Bydd oblygiadau arianol. Trafod yn y Cyngor Mis Rhagfyr.

.....

Cof;-2711/18 Cyfarfod creu panel amlasianteuthau 18-10-2018. Adroddiad gan Cyng E. Hywel
Penderfyniad-aros i weld beth fydd yn digwydd. Nododd y cyfarfod nad oedd adeilad cymunedol yn Pwllheli**.**

.....

Cof;-2811/18 Cais am cyfraniad gan Prosiect Plas Carmel yn Anelog ger Aberdaron.

Cytuno ar gyfraniad o £250.

.....

Cof;-2911/18 Llythyr ar y bwrdd gan Cyngor Gwynedd yn gofyn am wybodaeth ar niferoedd sydd yn cysgu ar y stryd yn Pwllheli

Penderfyniad-Llythyr i GISDA

.....

Cof;- 3011/18 Papur briffio ar y bwrdd gyda data rhaglen mesur pwysau plant

.....

Cof;-3111/18

Derbyniadau-cytunwyd

4,750	Rhent Maes Parcio	CR
21.13	BT rebate	CR
250	Rhent Adams	CR
2.55	Llog Banc	CR

Cof;-3211/18
Taliadau-cytunwyd

2450	Teledu Cylch Cyfyng	203047
324	Spick and Span- glanhau carpedi	203048
333.42	HMRC	203049
1221.93	Costau gweinyddol rhedeg y siambr	sieciau
50	Arian parod	203053
60	Argraffdy-seremoni priffardd	203054
1000	Gwyl fwyd Pwllheli-cyfraniad	203055
1082	Cynnal a chadw Tram- Cyfrif Siambr	100030
230	Peintio wal a Llawr Siambr-Re-Dec. Cyfrif Siambr	100031
432	Weindio cloc y siambr pob wythnos (54 wythnos) D.Jones	203056
36	Argraffdy-papur penawd	203057

Daeth y Cyngor i ben am 8 30yh

Cynhelir Cyfarfod Nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 6ed o Rhagfyr

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 28 Tachwedd 2018.

Sylw- Mae cofnod o lle mae`r gwybodaeth penodol o`r Cyngor yma mewn atodiad yn y cyfnodion swyddogol